Y WERIN
CRONFA DREFTADAETH
LEGACY FUND
Ymddiriedolaeth Gwaddol Cyfyngedig PC
The UW Restricted Endowment Trust

# Ysgoloriaeth Goffa Rosa Hovey

*Darperir yr Ysgoloriaeth hon o'r incwm o roddion i Brifysgol Cymru a roddwyd yn Hydref 1934, ac Ionawr 1949, gan y ddiweddar Miss Ethel M Hovey, Bae Colwyn.*

1. Dyfernir Ysgoloriaeth Goffa Rosa Hovey, sy'n werth tua £1,500[1] y flwyddyn, gan UWRET ar argymhelliad Prifysgol Bangor. Seilir yr argymhelliad ar Arholiad Ysgoloriaeth Fynediad y Sefydliad.[2]
2. Rhaid i'r ymgeiswyr am yr ysgoloriaeth fod yn ferched sydd, neu sydd wedi bod ers dwy flynedd o leiaf, yn ddisgyblion yn un o ysgolion uwchradd y wladwriaeth neu mewn ysgol uwchradd annibynnol mewn unrhyw le yn hen siroedd Caernarfon neu Ddinbych. Rhoddir blaenoriaeth i unrhyw ferched o'r fath a gafodd eu haddysg uwchradd, yn gyfan gwbl neu yn rhannol, mewn ysgol yn ardal bwrdeistref bresennol Colwyn neu'r plwyfi gwledig sy'n gyfagos iddi.
3. Delir yr ysgoloriaeth ym Mhrifysgol Bangor.
4. Delir yr ysgoloriaeth am gyfnod o flwyddyn yn y lle cyntaf, ac, ar argymhelliad y Sefydliad ac yn ôl disgresiwn UWRET, gall gael ei hadnewyddu am ail a thrydedd flwyddyn.[3]
5. Rhaid i ddeiliad yr ysgoloriaeth fyw yn un o Neuaddau Preswyl y Sefydliad i ddechrau.
6. Gellir cael rhagor o wybodaeth am Arholiadau blynyddol yr Ysgoloriaeth Fynediad oddi wrth yr Ysgrifennydd a Chofrestrydd, Prifysgol Bangor, Gwynedd LL57 2DG.

---

Caiff y rheoliadau hyn eu ffurfio ar sail y gymynrodd wreiddiol. Wrth wneud dyfarniad, gall yr Ymddiriedolwyr ddefnyddio eu doethineb a dehongli'r gymynrodd yn addas i'r cyfnod modern.

1. Bydd union werth y dyfarniad yn amodol ar y cyllid sydd ar gael.
2. Lle bo'n gymwys
3. Cymesur ac yn amodol ar y cyllid sydd ar gael